# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 13 Ionawr 2016

Amser: 09.20 - 12.05

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3295

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Ann Jones AC (Cadeirydd)<br>Angela Burns AC<br>Suzy Davies AC<br>Lynne Neagle AC<br>David Rees AC<br>Aled Roberts AC<br>Simon Thomas AC<br>Rhodri Glyn Thomas AC |
| Tystion: | Huw Lewis AC, Y Gweinidog Addysg a Sgiliau<br>Jo-Anne Daniels, Llywodraeth Cymru<br>Huw Morris, Llywodraeth Cymru<br>Steven Davies, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Marc Wyn Jones (Clerc)<br>Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc)<br>Michael Dauncey (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Aelodau i'r cyfarfod, a diolchodd i David Rees am weithredu fel Cadeirydd dros dro.

Cafwyd ymddiheuriadau gan Keith Davies a John Griffiths. Nid oedd Aelodau'n dirprwyo ar eu rhan.

## 2 Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016-17 - y Gweinidog Addysg a Sgiliau

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Gweinidog a'i swyddogion a diolchodd iddynt am eu papur manwl.

Datganodd Aled Roberts AC fuddiant perthnasol o dan Reol Sefydlog 17.24; oherwydd bod ei wraig yn cael ei chyflogi yn y sector addysg bellach a'i bod yn gyfrifol am y Gymraeg a Chymraeg i Oedolion yng Ngholeg Cambria, a bod ei fab yn fyfyriwr amser llawn yn derbyn ysgoloriaeth gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Holodd y Pwyllgor y Gweinidog ar gynigion y gyllideb ddrafft. Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog ynghylch y materion a godwyd yn ystod y sesiwn.

## 3 Papurau i'w nodi

Cafodd y papurau eu nodi.

3.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau at y Gweinidog Addysg a Sgiliau - P-04-576 a P-04-606

3.2 Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016-17- Papur gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

3.3 Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol – Cyllido Canolfannau Cyswllt Plant yn y dyfodol

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod:

Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016-17 - trafod y dystiolaeth

Ystyriodd yr Aelodau y dystiolaeth a ddaeth i law, a byddai llythyr yn cael ei anfon at y Pwyllgor Cyllid.

## 6 Trafod blaenraglen waith y Pwyllgor

Cytunodd y Pwyllgor ar y flaenraglen waith hyd at ddiwedd y tymor.